Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA-L/JM/0665/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

13 Medi 2019

Annwyl Lynne,

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y gwaith craffu y maent wedi'i wneud mewn perthynas â'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 2 Awst 2019.

Yn sgil yr amser rydych wedi'i dreulio'n ystyried cynnwys y Bil a'r broses o'i weithredu, roeddwn am ysgrifennu atoch cyn y drafodaeth ar egwyddorion cyffredinol ar 17 Medi, gan nodi ein hymateb manwl i argymhellion y pwyllgor. Wrth wneud hynny, daw rhai o'r pwyntiau sy'n codi o dan bortffolios Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, yr anfonir copi o'r llythyr hwn at bob un ohonynt.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y pwyllgor yn Atodiad A. Ystyriwyd y Bil gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod Cyfnod 1 hefyd a gwnaethant argymhellion ynglŷn â'i gynnwys. Rwyf wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng Adroddiadau'r tri Phwyllgor, ond yn anochel cafwyd achlysuron pan oedd yn rhaid i mi gytuno ag un ochr yn hytrach na'r llall.

O ganlyniad, nid yw wedi bod yn bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y meysydd hyn yn llawn, ond rwyf wedi rhoi'r egwyddorion a'r rhesymeg ategol ar waith cyn belled ag y bo modd.

Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol wrth nodi ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Cynulliad.

Yn Gywir

Julie

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad A

Argymhelliad 1. Bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan ystyried yr ystod eang o dystiolaeth a roddwyd i ni fel rhan o'n gwaith craffu Cyfnod 1 a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru). Nid yw Suzy Davies AC na Janet Finch-Saunders AC yn cefnogi'r argymhelliad hwn.

Rwy'n nodi ac yn croesawu'r argymhelliad hwn a chefnogaeth y mwyafrif o'r Pwyllgor i egwyddorion cyffredinol y Bil. Hoffwn ddiolch i bob un o aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith craffu ystyriol a thrylwyr ar y Bil. Credaf, ynghyd â'r mwyafrif helaeth o'r rhai sy'n darparu gwasanaethau statudol i blant a'u teuluoedd, y bydd y ddeddfwriaeth bwysig hon yn cynnig eglurder yn y gyfraith yn ogystal â helpu i amddiffyn hawliau plant.

Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwaith Grŵp Gweithredu'r Bil yn mynd rhagddo'n gyflym a chyda lefel ddigonol o dryloywder i allu craffu'n barhaus ar ei waith wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy'r cyfnodau perthnasol.

Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn, ond gofynnaf i'r Pwyllgor nodi y bydd gwaith y Grŵp Gweithredu yn ymestyn y tu hwnt i hynt y Bil, os caiff ei basio, nes iddo gychwyn o leiaf. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd o ran busnes craidd y Grŵp Gweithredu Strategol. Bydd pedwar grŵp gorchwyl a gorffen penodol yn mynd â'r gwaith manwl parhaus o weithredu'r Bil rhagddo – Cyngor a chymorth ynghylch rhianta; Casglu a monitro data; Gweithrediadau, gweithdrefnau a phrosesau; a Dargyfeiriadau a gwarediadau y tu allan i'r llys. Yn ogystal, bydd y Grŵp Gweithredu yn cael diweddariadau rheolaidd ar y cynlluniau ar gyfer codi ymwybyddiaeth. Mae'r grwpiau hyn eisoes wedi cyfarfod neu disgwylir iddynt gyfarfod yn y dyfodol agos.

Drwy gydweithio a thynnu ar arbenigedd a phrofiad ein partneriaid mewn cyrff a gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y trydydd sector, rwy'n hyderus y byddwn yn sicrhau y caiff y ddeddfwriaeth, os caiff ei phasio, ei gweithredu mewn ffordd ymarferol.

Mae cynllun lefel uchel ar gyfer y Grŵp Gweithredu yn cael ei baratoi a chaiff ei ystyried gan y Grŵp Gweithredu Strategol yn ei gyfarfod nesaf ar 23 Medi. Yn ystod y cyfarfod hwn, byddwn yn cytuno ag aelodau o'r grŵp ar y ffordd orau o roi diweddariadau i'r Pwyllgor a sicrhau eich bod yn cael gwybodaeth ddefnyddiol ac ystyrlon am gynnydd y Grŵp Gweithredu Strategol a'r grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn caniatáu digon o amser rhwng y Cydsyniad Brenhinol a chychwyn prif ddarpariaeth y Bil (sef dileu'r amddiffyniad cosb resymol) a bod y Dirprwy Weinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol am ei chynlluniau yn hyn o beth. Credwn y bydd angen yr amser hwn er mwyn gallu darparu gwybodaeth a chymorth i rieni, codi ymwybyddiaeth o'r newid deddfwriaethol, a diweddaru'r hyfforddiant a'r canllawiau angenrheidiol. Credwn fod pob un ohonynt yn hanfodol i weithredu'r Bil yn effeithiol ac yn gymesur ac i gyflawni'r nodau a bennwyd.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi mynegi fy marn yn glir fy mod yn ystyried y dylai cyfnod o hyd at 2 flynedd rhwng cael Cydsyniad Brenhinol a chychwyn y Bil ganiatáu digon o amser i godi ymwybyddiaeth, fel y bydd y cyhoedd yn cael amser i ddeall goblygiadau'r gyfraith hon ac, os oes angen, nodi ffyrdd o ddisgyblu eu plant heb eu cosbi'n gorfforol.

Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn cynnig amser i ystyried sut mae'r cyrff cyhoeddus perthnasol yn cydweithio er mwyn mireinio prosesau, gweithdrefnau, canllawiau a hyfforddiant a rhoi unrhyw gynllun dargyfeirio a threfniadau cysylltiedig ar waith cyn dod â'r Ddeddf i rym.

Croesawodd Gwasanaeth Erlyn y Goron y dull gweithredu hwn yn ei dystiolaeth ysgrifenedig ac mae Comisiynydd Plant Cymru wedi dweud yn ei thystiolaeth:

"Rwy'n nodi ac yn deall y gofyniad i gael cyfnod addas ar ôl y Cydsyniad Brenhinol (os caiff y Bil ei basio) er mwyn cwblhau hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth a diweddaru dogfennau."

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, ac adrannau perthnasol Llywodraeth y DU i ddatblygu, fel mater o flaenoriaeth, lwybr clir i ddargyfeirio achosion, sydd ar hyn o bryd yn destun yr amddiffyniad cosb resymol, i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol, lle y bo hynny'n briodol ac yn gymesur. Dylai cynlluniau dargyfeirio o'r fath ganolbwyntio ar annog a chefnogi rhieni yn hytrach na'u cosbi.

Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn. Rwy'n cydnabod yn llwyr bwysigrwydd gweithio'n agos gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac adrannau'r DU er mwyn gweithredu'r Bil yn effeithiol. Mae fy rhagflaenydd a minnau wedi cael cyfarfodydd niferus â'r cyrff hyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf pan gafwyd trafodaethau buddiol ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys gwarediadau y tu allan i'r llys.

Bydd grŵp gorchwyl a gorffen penodol yn mynd â'r gwaith manwl hwn rhagddo dan oruchwyliaeth y Grŵp Gweithredu Strategol. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp gorchwyl a gorffen ar ddargyfeiriadau a gwarediadau y tu allan i'r llys ym mis Gorffennaf, gyda chynrychiolwyr o'r pedwar heddlu yng Nghymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron a gwasanaethau cymdeithasol. Mae aelodau'r grŵp yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio er mwyn creu dull gweithredu cydgysylltiedig sy'n annog

atal ac ymyrryd yn gynnar. Roedd y drafodaeth yn y cyfarfod yn cynnwys ystyried cynllun dargyfeirio ar gyfer troseddwyr tro cyntaf a sut gallent annog a chefnogi rhieni.

Byddwn yn parhau â'r trafodaethau adeiladol hyn ond mae'n rhaid cydnabod nad yw plismona a chyfiawnder yng Nghymru yn gyfrifoldeb datganoledig. Swyddfa Gartref a Gweinyddiaeth Gyfiawnder y DU sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfyniadau am fodelau darparu a chanllawiau ar gyfer cynllun dargyfeirio.

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r heddlu ac adrannau perthnasol Llywodraeth y DU i ddatblygu, fel mater o flaenoriaeth, ganllawiau clir ar gyfer heddluoedd yng Nghymru ynghylch cofnodi gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwilio i honiadau o gosbi plant yn gorfforol.

Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn o ran gweithio gyda phartneriaid allweddol. Fodd bynnag, cyfrifoldeb Swyddfa Gartref y DU yw llywodraethu a gweinyddu'r heddlu o hyd a mater i'r heddlu a'r Swyddfa Gartref yw llunio canllawiau perthnasol i heddluoedd yng Nghymru.

Caiff heddluoedd Cymru eu cynrychioli ar y Grŵp Gweithredu a phob un o'i grwpiau gorchwyl a gorffen. Bydd y grwpiau hyn yn ystyried amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- Sut i ddatblygu dull cyson o gofnodi gwybodaeth sy'n ymwneud â honiadau o gosbi plant yn gorfforol.
- Pa ganllawiau proffesiynol a gofynion hyfforddiant y bydd eu hangen ar yr heddlu a'r gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n ymwneud â diogelu plant.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Swyddfa Gartref yn rheolaidd er mwyn ystyried hyn a materion eraill sy'n ymwneud â'r Bil.

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i gwaith i sefydlu gwaelodlin cadarnach o ran nifer yr achosion o gosbi plant yn gorfforol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol yn rheolaidd.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a gwasanaethau cymdeithasol i roi trefniadau ar waith i gasglu data, er mwyn llinell sylfaen cyn gweithredu'r Bil a monitro'r effaith ar ôl ei weithredu. Rydym yn mynd â'r gwaith hwn rhagddo drwy'r Grŵp Gweithredu Strategol.

Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen 'Casglu a Monitro Data' yn ystyried sut i gasglu'r data perthnasol. Caiff y data a gesglir eu dadansoddi fel rhan o'r broses o adolygu'r ddeddfwriaeth ar ôl ei gweithredu. Byddwn yn cytuno ag aelodau'r grŵp ar y ffordd orau o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn unol ag Argymhelliad 2.

Nodaf fod argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid hefyd mewn perthynas â phennu cost sylfaenol ar gyfer atgyfeirio achosion at y gwasanaethau cymdeithasol.

Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru, i gynorthwyo'r Aelodau i gyflwyno ac ystyried gwelliannau, yn darparu, cyn dechrau Cyfnod 3:

- **gasgliadau ei phroses o fapio'r cymorth sydd ar gael i rieni;**
- **manylion y buddsoddiad strategol a fydd yn cael ei wneud i gyflawni'r newid sylweddol yn y gwasanaethau cymorth cyffredinol i rieni, sy'n angenrheidiol yn ein barn ni.**

Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn fwy na pharod i rannu casgliadau'r broses o fapio'r cymorth rhianta â'r Pwyllgor maes o law.

Rydym yn rhagweld y caiff y broses fapio ei chwblhau erbyn diwedd mis Medi 2019, ond bydd yn cymryd amser i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r canfyddiadau ac ystyried unrhyw oblygiadau posibl. Bydd hyn y tu allan i amserlen eich argymhelliad. Bydd aelodau'r Grŵp Cynghori Arbenigol ar Rianta yn ystyried y canfyddiadau pan fyddant yn cyfarfod ar 17 Hydref, a gofynnir iddynt, ar sail eu gwybodaeth a'u profiad, wneud argymhellion ar y camau nesaf. Pan fyddaf wedi ystyried yr argymhellion hyn, byddaf yn ysgrifennu at aelodau'r Pwyllgor gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae darparu cymorth rhianta yn un o flaenoriaethau'r Llywodraeth hon ac mae eisoes gennym becyn o fesurau i gefnogi plant a'u rhieni. Mae hyn yn cynnwys ein hymgyrch ar-lein 'Magu plant. Rhowch amser iddo' a mynediad at gyngor wyneb yn wyneb drwy ymweliadau iechyd a'n rhaglenni cymorth i deuluoedd Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Ar hyn o bryd, mae 'Magu plant. Rhowch amser iddo' yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni â phlant hyd at saith oed. Fy mwriad yw ymestyn yr ystod oedran o saith oed i 18 oed, er mwyn cefnogi rhieni â phlant hŷn. Ym mlwyddyn ariannol 2019-20 rwyf wedi nodi cyllideb gwerth tua £30,000 i ddatblygu adnoddau newydd.

Yn ogystal, mae hyd at £400,000 wedi cael ei sicrhau o'r Gronfa Bontio Ewropeaidd ar gyfer 2019-20 er mwyn helpu i liniaru effaith bosibl Brexit ar gydberthnasau rhieni a theuluoedd. Bydd y cyllid ar gael er mwyn gwella sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau'r gweithlu i gefnogi teuluoedd os ceir gwrthdaro rhwng rhieni, gan gynnwys lle mae pwysau'n cynyddu o ganlyniad i'r posibilrwydd o golli swydd a/neu incwm.

Nodaf fod argymhelliad hefyd gan y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â chanlyniad y broses fapio.

Argymhelliad 8. Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiad clir y bydd yn ymrwymo i:

a) **fonitro'n agos effaith y Bil ar adnoddau gwasanaethau;**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda sefydliadau i roi trefniadau ar waith i gasglu data am yr effaith bosibl ar eu gwasanaethau, er mwyn pennu llinell sylfaen cyn i'r Bil gael ei weithredu a monitro'r effaith ar ôl ei weithredu. Rydym yn mynd â'r gwaith hwn rhagddo drwy'r Grŵp Gweithredu Strategol a grŵp gorchwyl a gorffen pwrpasol ar Gasglu a Monitro Data. Bydd y grŵp hwn yn ystyried y ffyrdd mwyaf effeithiol o fonitro'r effaith ar wasanaethau gwahanol. Bydd y gwaith gan y grŵp yn ein helpu i ddatblygu prosesau monitro ac adrodd er mwyn gwerthuso effeithiau'r newid yn y gyfraith (os caiff y Bil ei basio) yn y dyfodol.

b) **ariannu'r goblygiadau o ddileu'r amddiffyniad mor gyflawn ag sy'n angenrheidiol dros gyfnod;**

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Byddai ymrwymiad cyllid o'r fath yn ymestyn y tu hwnt i'r tymor Cynulliad hwn. Caiff y data a gesglir fel rhan o'r gweithgarwch i fonitro effaith y Bil eu dadansoddi fel rhan o'r broses o adolygu'r ddeddfwriaeth ar ôl ei gweithredu. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gall Llywodraeth Cymru ystyried, ar y cyd â'r sefydliadau perthnasol, y ffyrdd gorau o reoli unrhyw effaith ar lwythi gwaith neu adnoddau, gan gynnwys goblygiadau posibl o ran costau.

Rwyf eisoes wedi ymrwymo i ariannu ymgyrch ddwys i godi ymwybyddiaeth, ac i gynnal proses fapio er mwyn canfod a oes unrhyw fylchau yn y cymorth rhianta a ddarperir ar hyn o bryd ac yr ydym eisoes yn darparu cyllid ar ei gyfer.

c) **rhoi sicrwydd i'r cyhoedd nad effeithir ar unrhyw wasanaethau rheng flaen eraill oherwydd bod y Bil yn dargyfeirio adnoddau.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn. Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am y ffordd y dyrennir eu cyllideb a'u blaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau, ar sail eu dyletswyddau a'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Fodd bynnag, fel y gwyddoch o'ch sesiynau tystiolaeth, mae gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a gwasanaethau iechyd eisoes yn ymdrin â galwadau ac atgyfeiriadau sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol, gan gynnwys cosb resymol, felly nid categori gwaith cwbl newydd fydd hwn.

Rydym wedi ystyried y data cyhoeddedig sydd ar gael o wledydd eraill ar effaith mesurau y maent eisoes wedi'u rhoi ar waith er mwyn gwahardd pobl rhag cosbi plant yn gorfforol. Rydym eisoes wedi siarad ag amrywiaeth o randdeiliaid yn Iwerddon, Seland Newydd a Malta y mae ganddynt systemau cyfreithiol tebyg i'n systemau ein hunain. Yn y gwledydd hyn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol wedi cael eu llethu ar ôl diwygio'r gyfraith.

Mae nifer o randdeiliaid, wrth roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor, hefyd wedi cadarnhau mai hyn yw eu barn:

"O ran trothwyon ar gyfer gwasanaethau plant, ni fyddem yn rhagweld y caiff nifer enfawr o achosion eu hatgyfeirio atom. Gall nifer bach o achosion gael eu hatgyfeirio. Yr hyn rydym yn ei wybod o wledydd eraill yw y bydd y nifer yn cyrraedd penllanw cyn tawelu. Rydym yn cydnabod bod hynny'n debygol o ddigwydd."
Sally Jenkins, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

"Felly, rydym yn trafod, yn achos de Cymru, efallai tua 100 o achosion sydd yn y categori hwn."
Matt Jukes, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru

"… ni ddisgwylir cynnydd enfawr o ran nifer yr achosion a gaiff eu hatgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Rwy'n meddwl yr ymdrinnir ag ef gan ddefnyddio eu hadnoddau presennol."
Jane Randall, Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

"Rwy'n cytuno, o ran nifer yr achosion a gaiff eu hatgyfeirio, ei bod yn annhebygol o newid rhyw lawer"
Dr Rowena Christmas, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

Argymhelliad 9. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu gwybodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth o effaith y ddeddfwriaeth. Dylai'r wybodaeth a ddarperir gynnwys manylion am y cymorth sydd ar gael i rieni er mwyn dysgu a defnyddio dulliau heblaw am gosb gorfforol wrth ddisgyblu eu plant.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a byddaf yn cyflwyno diwygiadau i'r Bil ynghylch codi ymwybyddiaeth. Rwy'n gwbl ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth o'r newid i'r ddeddfwriaeth, os caiff y Bil ei basio, ac rwyf eisoes wedi addo hyn wrth y pwyllgor hwn.

Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, rwyf wedi cymeradwyo ymgyrch ddwys, a fyddai'n costio tua £2.2 miliwn dros tua chwe blynedd. Mae hyn yn cynnwys gwaith sylweddol i godi ymwybyddiaeth rhwng cael Cydsyniad Brenhinol a chychwyn y Bil, er mwyn codi cymaint o ymwybyddiaeth â phosibl cyn i'r gyfraith ddod i rym. Byddai'r ymgyrch hon yn parhau am tua phedair blynedd ar ôl cychwyn y Bil, er mwyn cynnal lefel uchel o ymwybyddiaeth.

Caiff yr ymgyrch ei chyflwyno ochr yn ochr â'n hymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo', sy'n rhoi gwybodaeth i rieni am ddewisiadau cadarnhaol yn lle cosb gorfforol ac yn eu cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill. Mae'r adnodd gwerthfawr hwn yn rhoi gwybodaeth drwy wefan bwrpasol, tudalen Facebook ac amrywiaeth o adnoddau. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ym mhob awdurdod lleol hefyd yn rhoi cyngor diduedd am ddim ar amrywiaeth o faterion teulu gan gynnwys gofal plant, addysg a hyfforddiant, iechyd, cyllid, hamdden, a chymorth rhianta.

Nodaf fod argymhelliad hefyd gan y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'r ddyletswydd hon.

Argymhelliad 10. Bod Llywodraeth Cymru, cyn dechrau Cyfnod 3, yn rhoi'r wybodaeth ysgrifenedig ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol am ei chynlluniau codi ymwybyddiaeth gyda phlant a phobl ifanc. Dylai'r wybodaeth hon awgrymu sut y gall y cwricwlwm newydd:

- **godi ymwybyddiaeth o'r Bil a sut y mae'n effeithio arnynt fel plant a phobl ifanc;**
- **paratoi plant a phobl ifanc i ddod yn rhieni a gofalwyr y dyfodol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Byddaf yn cyhoeddi rhagor o fanylion ein cynlluniau cyfathrebu. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau hynny drwy adolygu'r Memorandwm Esboniadol ar ddiwedd Cyfnod 2.

Nod y cwricwlwm newydd yw bod yn eang, yn gytbwys, yn gynhwysol ac yn heriol gyda'r pedwar diben a amlinellwyd yn ganolog iddo. Un o'r pedwar diben yw bod dysgwyr yn datblygu'n unigolion iach, hyderus sy'n ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd ac yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach. Mae angen i'r dibenion hyn fod wrth wraidd popeth y mae plant a phobl ifanc yn ei ddysgu. Nhw yw'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad am y ffordd y caiff y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd i Gymru eu cynllunio a'u datblygu.

Un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) yw Iechyd a Lles. Mae hon yn rhan arloesol o'r cwricwlwm newydd a'i nod yw sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cymorth a chyfle i ddysgu ynghylch materion megis iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae un o'r pum datganiad allweddol sy'n diffinio 'Yr hyn sy'n bwysig' ym maes Iechyd a Lles yn canolbwyntio ar bwysigrwydd perthnasoedd iach. Bwriedir iddo helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal amrywiaeth o berthnasoedd cadarnhaol, gan gydnabod bod parch a thegwch yn elfennau hanfodol o'r perthnasoedd hyn. Mae'r dysgu yn y canllawiau drafft ar gyfer Iechyd a Llesiant yn cynnwys helpu dysgwyr i wneud y canlynol: nodi elfennau niweidiol perthnasoedd a dylanwadau cymdeithasol, ceisio cymorth a chefnogaeth pan fo angen, a chydnabod eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill mewn perthnasoedd. Bwriad y MDPh yw cefnogi dysgwyr i feithrin a chynnal perthnasoedd sy'n seiliedig ar dosturi, cyfathrebu cadarnhaol, parch a thegwch, waeth beth fo'r math o berthynas.

Nid yw'r cwricwlwm newydd wedi'i gynllunio i nodi rhestr fanwl sy'n dweud wrth athrawon am bob testun penodol y dylent ei addysgu. Rydym yn cefnu ar restr ragnodol o bethau y dylai plant eu gwybod ar adegau allweddol yn eu haddysg, gan nad yw hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn meithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau hanfodol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y bydd plant yn colli'r cyfle i feithrin sgiliau bywyd na gwybodaeth bwysig. Mae'r MDPh yn ceisio datblygu'r dysgu hanfodol er mwyn helpu dysgwyr i gydnabod eu hawliau cyfreithiol yn ogystal â meithrin y sgiliau a'r ymagweddau sy'n hanfodol er mewn bod yn rhieni ac yn ofalwyr.

Mae rhianta a gofalu yn gyd-destunau pwysig ar gyfer perthnasoedd yn y MDPh. Mae'r ymarferwyr sy'n datblygu canllawiau'r MDPh yn ystyried adborth ar hyn o bryd ac, fel rhan o'r broses hon, byddant yn ystyried sut y gellir mireinio'r canllawiau er

mwyn rhoi rhagor o gymorth i weithwyr proffesiynol i ystyried amrywiaeth o fathau gwahanol o berthnasoedd wrth gynllunio'r cwricwlwm, gan gynnwys rhianta a pherthnasoedd gofalgar.

Argymhelliad 11. Bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynllunio ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o effaith y Bil ar ymwelwyr â Chymru yng ngwaith Grŵp Gweithredu'r Bil.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Byddwn yn rhoi sylw priodol i'r ffordd y gallwn godi ymwybyddiaeth ymwelwyr â Chymru drwy'r Grŵp Gweithredu Strategol.

Argymhelliad 12. Bod Llywodraeth Cymru, cyn dechrau Cyfnod 3, yn rhoi'r wybodaeth ysgrifenedig ddiweddaraf am Raglen Plant Iach Cymru:

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a nodaf y wybodaeth ddiweddaraf am bob rhan o'r argymhelliad hwn isod:

a) **sut y bydd Rhaglen Plant Iach Cymru yn ymgorffori negeseuon am ddileu'r amddiffyniad cosb resymol;**

Mae Rhaglen Plant Iach Cymru yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer byrddau iechyd yng Nghymru i ddarparu rhaglen iechyd gynhwysol ar gyfer plant a'u teuluoedd o'r adeg pan gaiff y plant eu trosglwyddo o wasanaeth mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol.

Nod y rhaglen yw gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant, ac mae'n nodi set gyffredin o gysylltiadau rhwng teuluoedd ac ymwelwyr iechyd. Mae'r rhaglen yn ategu'r cysyniad o gyffredinoliaeth gynyddol a'i nod yw nodi cyfres ofynnol o ymyriadau allweddol i bob teulu sydd â phlant o oedran cyn ysgol, ni waeth beth fo'u hangen.

Yn ystod pob cyswllt, achubir ar gyfleoedd i sicrhau y nodir blaenoriaethau iechyd cyhoeddus allweddol ac y cyflwynir negeseuon sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella iechyd a llesiant plant a'u teuluoedd. Bydd y swyddogion yn sicrhau bod unrhyw negeseuon allweddol am ddileu amddiffyniad cosb resymol ac am dechnegau rhianta cadarnhaol yn cael eu rhaeadru drwy'r Fforwm Ymwelwyr Iechyd a Nyrsys Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol er mwyn rhoi gwybod i'r gweithlu yn ôl yr angen.

Iechyd a llesiant y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf. Pan geir pryderon proffesiynol am les plentyn neu pan gredir bod plentyn yn cael niwed sylweddol, fel y sefyllfa bresennol, bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn atgyfeirio'r achos at adran Gwasanaethau Cymdeithasol eu Hawdurdod Lleol yn unol â'u dyletswyddau i gyflwyno adroddiad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

b) pa gamau y bydd yn eu cymryd i wella'r nifer sy'n manteisio ar Raglen Plant Iach Cymru ar draws Cymru er mwyn sicrhau bod yr holl blant a theuluoedd yn cael y nifer lawn o gysylltiadau a drefnwyd;

Ategir Rhaglen Plant Iach Cymru gan y System Iechyd Plant, a ddarperir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, gan sicrhau bod byrddau iechyd yn gallu trefnu cysylltiadau'n effeithiol o dan y rhaglen ac y cesglir data cywir y gellir eu cymharu er mwyn cefnogi gwelliannau i iechyd plant ledled Cymru.

Ers mis Tachwedd 2018, mae ystadegau wedi cael eu cyhoeddi sy'n cynnwys data o'r chwarter cyntaf pan gyflwynwyd y rhaglen (Hyd-Rhag, 2016) i'r chwarter diweddaraf sydd ar gael (Hyd-Rhag, 2018). Cyhoeddir diweddariadau data chwarterol ar *StatsCymru* a chyhoeddir adroddiad ystadegol blynyddol ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ystadegol blynyddol cyntaf ar Raglen Plant Iach Cymru ar gyfer blwyddyn galendr lawn 2018 ym mis Mehefin 2019. Mae'r ystadegau'n dangos gwerth cael cyfres gyson o gysylltiadau ar gyfer pob plentyn ledled Cymru gan eu bod yn nodi cynnydd graddol cyffredinol yng nghanran y plant sy'n cael cysylltiadau yn y mwyafrif o'r pwyntiau cyswllt ers dechrau'r rhaglen yn 2016. Mae'r ystadegau'n dangos y cynigiwyd 74% o'r cysylltiadau o dan Raglen Plant Iach Cymru a ddylai fod wedi cael eu cynnig i blant cymwys.

Derbyniodd 93% o'r plant cymwys eu cyswllt yn 10-14 diwrnod oed (cyfradd uchaf yr holl bwyntiau cyswllt), ond dim ond 50% o'r plant cymwys dderbyniodd eu cyswllt yn 3.5 oed (cyfradd isaf yr holl bwyntiau cyswllt). Mae'r cyfraddau cyswllt yn amrywio rhwng yr ardaloedd bwrdd iechyd amrywiol.

Rydym yn disgwyl i'r byrddau iechyd adolygu gweithrediadau a dulliau cyflwyno gan gynnwys gofynion y gweithlu yn sgil y data ystadegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar i sicrhau bod y cwmpas yn parhau i wella ym mhob pwynt cyswllt. Mae'r Byrddau Iechyd wedi rhoi sicrwydd yn dilyn y cyhoeddiad ystadegol diweddar fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i wella unrhyw ddiffygion mewn cysylltiadau penodol a nodwyd gan y data hyn.

Gan mai cynnig yw Rhaglen Iechyd Plant Cymru, nid oes unrhyw orfodaeth ar rieni i sicrhau bod eu plant yn mynychu pob cyswllt a gynllunnir. Fodd bynnag, pan geir pryderon am les plentyn, bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn atgyfeirio'r achos at adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol yn unol â'i ddyletswyddau hysbysu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Bwrdd Prosiect wedi cael ei sefydlu sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol i oruchwylio'r cam nesaf o fonitro a gwerthuso'r rhaglen yn y dyfodol.

c) sut y bydd cymorth cyffredinol i ddarpar famau hefyd yn ymgorffori ac yn cyflwyno negeseuon am y Bil a rhianta cadarnhaol.

Mae'r broses o weithredu Rhaglen Plant Iach Cymru yn sicrhau ymrwymiad i gyflwyno negeseuon iechyd y cyhoedd allweddol o'r adeg y caiff plentyn ei genhedlu

nes y bydd yn saith oed, fel bod teuluoedd yn cael cymorth i wneud dewisiadau a fydd yn gwella eu hiechyd hirdymor er mwyn darparu amgylchedd diogel a magwrus.

Rhaglen waith newydd sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r Rhaglen Gwybodaeth am Iechyd a Llesiant i Rieni. Ei nod yw sicrhau bod rhieni, a'r gwasanaethau y maent yn ymgysylltu â nhw, yn cael mynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, pan fydd ei hangen arnynt, er mwyn eu cefnogi fel rhieni i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant. Mae'r rhaglen yn ystyried ffyrdd o leihau anghydraddoldebau o ran mynediad at y wybodaeth bwysig sydd ei hangen ar bob rhiant a bwriedir iddi ddarparu cyfres o ffynonellau gwybodaeth, ar ffurf copi caled neu ar ffurf ddigidol, i gymryd lle, yn y pen draw, y cyngor a roddir ar hyn o bryd drwy'r llyfr Naw Mis a Mwy a gyflwynir i bob mam feichiog.

Y nod yw sicrhau y cyflwynir gwybodaeth allweddol, a fydd yn cynnwys gwybodaeth am y Bil, mewn fformat sy'n hygyrch i rieni a gweithwyr proffesiynol ac sy'n briodol i anghenion a cham datblygu'r plentyn.

Mae Bwrdd Rhanddeiliaid, a gaiff ei gadeirio gan Ddirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru, yr Athro Chris Jones, wedi cael ei sefydlu er mwyn goruchwylio, llywodraethu ac arwain y broses o sefydlu a gweithredu dull diwygiedig o roi gwybodaeth am iechyd i fenywod beichiog a rhieni plant hyd at saith oed.

Argymhelliad 13. Bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Bil i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru:

- **i gynnal gwerthusiad ar ôl gweithredu'r Bil, o fewn tair blynedd ar ôl i brif ddarpariaeth y Bil (sef dileu'r amddiffyniad cosb resymol) ddod i rym;**
- **i lunio adroddiad ar ganfyddiadau gwerthusiad o'r fath i'r Cynulliad Cenedlaethol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn a byddaf yn cyflwyno diwygiad gyda dyletswydd i werthuso'r Bil ar ôl ei weithredu dros bum mlynedd. Rwyf wedi rhoi sicrwydd y cynhelir adolygiad ar ôl gweithredu'r Bil. Mae Pennod 10 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r dull gweithredu bwriadedig ar gyfer monitro ac adolygu effaith y ddeddfwriaeth. Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid, byddwn yn darparu rhagor o fanylion ac yn amlinellu cost yr adolygiad ar ôl gweithredu mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn ystod Cyfnod 3.

Caiff effaith y Bil ei mesur mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy waith ymchwil a gwerthuso ynghyd â datblygu proses o gasglu data yn rheolaidd ar y cyd â rhanddeiliaid.

Byddwn yn caffael contractwyr i gynnal astudiaethau o agweddau o bryd i'w gilydd, a fydd yn ein galluogi i olrhain y newidiadau yn agweddau pobl at y defnydd o gosb gorfforol, ac yn eu hymwybyddiaeth o'r gyfraith. Fel y sefyllfa bresennol, cyhoeddir yr adroddiadau hyn yn unol â gofynion Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn gweithio gyda'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r llysoedd i gytuno ar broses o gasglu data perthnasol am gyfnod cyn gweithredu'r Bil er mwyn sefydlu llinellau sylfaen. Bydd y broses o gasglu data yn parhau ar ôl i'r Bil gychwyn er mwyn

monitro ei effaith. Bydd y broses o gasglu data, lle bynnag y bo modd, yn cyd-fynd â gweithgarwch presennol neu waith perthnasol arall. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen dynodedig ar Gasglu a Monitro Data yn mynd â'r gwaith manwl hwn rhagddo.

Byddem yn disgwyl cynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth ar ôl ei gweithredu, a chymryd ei bod yn cael Cydsyniad Brenhinol, gan ddechrau ar ôl y dyddiad cychwyn a pharhau am hyd at bum mlynedd yn hytrach na'r tair blynedd a argymhellwyd. Mae cyfnod o bum mlynedd yn cynnig amserlen debyg i Seland Newydd, gan olygu bod modd dadansoddi tueddiadau yn fwy effeithiol.

Nodaf fod argymhelliad hefyd gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â'r ddyletswydd hon.

Argymhelliad 14. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Grŵp Gweithredu'r Bil yn nodi – mewn cydweithrediad â'r holl wasanaethau perthnasol – ddulliau cadarn ar gyfer casglu data ystyrlon sy'n ymwneud â'r Bil. Diben y data hyn fydd galluogi asesiad a gwerthusiad ystyrlon i gael eu gwneud o effaith y Bil, a fydd yn hanfodol i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol a / neu feysydd y gallai fod angen cymorth neu adnoddau ychwanegol arnynt yn ystod blynyddoedd cynnar ei weithredu.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rwy'n cytuno'n gryf â barn y Pwyllgor bod angen i ni sefydlu dulliau cadarn o gasglu data ystyrlon sy'n ymwneud â'r Bil. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda sefydliadau i roi trefniadau ar waith i gasglu data am yr effaith bosibl ar eu gwasanaethau, er mwyn pennu llinell sylfaen cyn i'r Bil gael ei weithredu a monitro'r effaith ar ôl ei weithredu. Fel y nodwyd uchod, rydym yn mynd â'r gwaith hwn rhagddo drwy'r Grŵp Gweithredu Strategol a'r grŵp gorchwyl a gorffen pwrpasol ar Gasglu a Monitro Data. Bydd y grŵp hwn yn ein helpu i ddatblygu prosesau monitro ac adrodd a fydd yn ategu'r gwaith o werthuso effeithiau'r newid yn y gyfraith (os caiff y Bil ei basio) yn y dyfodol.

Argymhelliad 15. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, fel rhan o'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus sy'n cyd-fynd â'r Bil, bod cyngor clir yn cael ei ddarparu ar yr hyn y gall pobl ei wneud a phwy y gall pobl siarad â hwy os ydynt yn credu eu bod wedi gweld plentyn yn cael ei gosbi'n gorfforol neu'n dioddef ymosodiad corfforol neu os ydynt yn dod i wybod am hynny.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Busnes pawb yw diogelu. Fel y sefyllfa bresennol, mae gan y cyhoedd rôl wrth dynnu sylw'r gwasanaethau perthnasol os oes ganddynt bryder am blentyn.

Os oes gan aelod o'r cyhoedd reswm dros gredu bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, dylai gysylltu ag adran gwasanaethau plant ei Awdurdod Lleol. Os yw'r plentyn mewn perygl uniongyrchol, neu os oes trosedd wedi cael ei chyflawni, dylai gysylltu â'r Heddlu.

Mae'r canllawiau statudol "Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg" yn nodi bod gan bob asiantaeth a sefydliad

gyfrifoldeb i sicrhau bod ymwybyddiaeth dda gan y cyhoedd o gam-drin, esgeuluso a niwed a sut y gellir ac y dylid rhoi gwybod am bryderon. Dylai fod gan bob partner perthnasol amrywiaeth o wybodaeth a threfniadau clir ar waith er mwyn sicrhau bod pobl, gan gynnwys y cyhoedd, yn gwybod:

- sut i gysylltu;
- yr ymateb y gallent ei ddisgwyl.

Mae diogelu plant a phobl ifanc yn rhan o agenda ehangach iechyd y cyhoedd, y byddwn yn ei hystyried fel rhan o'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Argymhelliad 16.

Rwy'n cydnabod ac yn derbyn egwyddor argymhelliad y Pwyllgor, ond gall fod yn anodd ei gyflawni yn ymarferol, fel rwy'n ei amlinellu o dan bob rhan o'r argymhelliad hwn:

(a) Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gweithgarwch i fonitro effaith y Bil yn rhoi sylw arbennig i nifer yr adroddiadau am gosbi plant yn gorfforol/ymosod ar blant yn gorfforol y canfyddir eu bod yn faleisus.

Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr atoch ar 4 Mehefin, mae gan y llys drefniadau ar waith i ymdrin â honiadau maleisus. Mae hyn yn cynnwys cynnal gwrandawiadau 'canfod ffeithiau' gyda'r bwriad o ddarparu sail ffeithiol ar gyfer asesu risg wrth benderfynu'r goblygiadau i geisiadau am gyswllt diogel rhwng plentyn a'r rhiant nad yw'n breswyl. Rydym wedi cydnabod yn y Memorandwm Esboniadol ac yn fy llythyr y gallai'r newid yn y gyfraith arwain at gynnydd yn nifer yr honiadau o gosb gorfforol gan riant yng nghyd-destun ymgyfreitha rhwng cyplau sydd wedi gwahanu.

Er ein bod yn cydnabod y byddai'n ddefnyddiol deall nifer yr honiadau o gosbi plentyn yn gorfforol y canfyddir eu bod yn faleisus, byddai hyn yn her sylweddol yn ymarferol. Mae'n annhebygol y ceir honiadau o'r math hwn ar wahân i bryderon diogelu eraill a godir yn ystod achos o ymgyfreitha o dan gyfraith breifat. Mae nodi achosion lle mae honiadau maleisus yn ymwneud yn benodol â chosb gorfforol, ar wahân i faterion eraill, a sut y dylid meintioli hyn, yn hynod gymhleth. Fodd bynnag, mae hwn yn fater y mae Cafcass Cymru wrthi'n ei ystyried mewn perthynas â honiadau o gam-drin domestig.

Ar hyn o bryd, nid yw Cafcass Cymru yn mynd ati'n systematig i gadw cofnod ynghylch a oedd yr honiad a ystyriwyd gan y gwrandawiad 'canfod ffeithiau' yn faleisus. Fodd bynnag, mae wedi dechrau treialu'r defnydd o 'ffurflen cau achos' a ddefnyddir i gofnodi canlyniadau gwrandawiadau llys a ph'un a wnaed honiadau maleisus. Bydd y ffurflen cau achos yn ceisio nodi honiadau o gam-drin domestig a'r 'camau nesaf' dilynol ym mhroses y llys – h.y. a gynhaliodd y llys wrandawiad Canfod Ffeithiau i ystyried yr honiadau hynny. Ni fydd y ffurflen yn ymdrin â honiadau mewn perthynas â rhiant yn achosi niwed corfforol i'r plentyn – er y bydd yn nodi a oedd 'materion cysylltiedig â niwed corfforol' yn rhan o'r achos. Cwblheir y broses dreialu cyn diwedd mis Mawrth 2020. Bydd angen i Cafcass Cymru asesu a yw'r dull gweithredu hwn wedi llwyddo i nodi achosion o honiadau maleisus mewn perthynas â cham-drin domestig ac a yw'n ddichonol ac yn ymarferol cyflwyno'r

broses hon ar raddfa fwy. Yn dilyn yr asesiad hwn, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

(b) Dylai'r gweithgarwch i werthuso'r Bil gynnwys ystyried yr effaith y mae honiadau o gosbi plentyn yn gorfforol yn ei chael ar y llysoedd teulu ac ar lwythi gwaith ac amserlenni CAFCASS Cymru.

Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr atoch ar 4 Mehefin, rwyf wedi ymrwymo i fonitro effaith y Bil (os caiff ei basio). Gan gadw mewn cof ba mor gymhleth yw'r mater hwn fel yr amlinellwyd uchod, bydd Cafcass Cymru a thîm y Bil yn parhau i weithio'n agos i ystyried y ffordd orau o fonitro'r effaith. Mae cynrychiolwyr o Cafcass Cymru a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn aelodau o'r Grŵp Gweithredu Strategol; a'r grŵp gorchwyl a gorffen ar Gasglu a Monitro Data. Bydd y grwpiau hyn yn ein helpu i ddatblygu dull addas o ymdrin â phrosesau monitro ac adrodd er mwyn gwerthuso effeithiau'r newid yn y gyfraith ar lysoedd teulu a llwythi gwaith ac amserlenni Cafcass Cymru yn y dyfodol.

Argymhelliad 17. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Grŵp Gweithredu'r Bil, cyn dechrau Cyfnod 3:

- **yn ystyried canlyniadau'r adolygiad annibynnol ar effeithiolrwydd yr Hybiau Diogelu Amlasiantaeth;**
- **yn defnyddio canfyddiadau'r adolygiad hwnnw, ac ymchwil berthnasol arall ar weithio ar sail amlasiantaeth, i lywio ei ddull o gynllunio, darparu adnoddau a chyflawni'r cydweithio sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu'r Bil hwn yn effeithiol.**

Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor, ond rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn gan fod yr adolygiad o hybiau diogelu amlasiantaeth yn ehangach o lawer na chyd-destun y Bil hwn. Felly, nid wyf yn ystyried ei bod yn briodol bod hybiau diogelu amlasiantaeth yn rhan o gylch gwaith y Grŵp Gweithredu. Rwy'n cydnabod bod y gallu i rannu gwybodaeth mewn ffordd amserol ac effeithiol yn allweddol i hwyluso'r broses o nodi angen neu risg yn gynnar; gwneud penderfyniadau ar y cyd; a'r ymateb cydgysylltiedig mwyaf priodol. Fodd bynnag, mae hanfod y gweithgarwch pwysig hwn yn ehangach o lawer na'r Bil hwn neu drosedd ymosod cyffredin y mae'r Bil hwn yn dileu amddiffyniad iddi.

Mae hybiau diogelu amlasiantaeth yn strwythurau sydd â'r bwriad o hwyluso rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ar sail amlasiantaeth. Fodd bynnag, nid oes un model unigol ar gyfer sefydlu hwb diogelu amlasiantaeth ac nid y rhain yw'r unig strwythurau sy'n galluogi'r gweithgarwch hwn. Mae'n bwysig cofio y bwriedir i'r trefniadau diogelu hyn hwyluso gwaith amlasianaeth mewn perthynas â diogelu oedolion, yn ogystal â phlant.

Bydd y gwerthusiad arfaethedig yn ystyried y modelau diogelu amlasiantaeth sydd ar waith ledled Cymru, eu nodweddion allweddol a manteision dulliau gweithredu gwahanol. Bydd yn ystyried ffynonellau tystiolaeth academaidd perthnasol er mwyn meithrin dealltwriaeth o egwyddorion allweddol gwaith diogelu amlasiantaeth effeithiol. Y canlyniad bwriadedig yw datblygu model arfer gorau ar gyfer trefniadau diogelu cydweithredol a all ymateb i bryderon newydd a rhai sy'n datblygu a'i

integreiddio yn agenda atal ac ymyrryd yn gynnar Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Er y bydd gan y Grŵp Gweithredu ddiddordeb brwd yn yr adolygiad hwn, ni cheir unrhyw gyd-ddibyniaeth rhwng gweithgareddau'r adolygiad a'r broses o weithredu'r Bil. Fel y dywedais pan roddais dystiolaeth gerbron y Pwyllgor ar 12 Mehefin, mae cyrff megis gwasanaethau cymdeithasol eisoes yn gweithio'n agos gyda'r heddlu ac maent wedi nodi eu bod yn barod i barhau i wneud hynny. Fel y dywedodd fy swyddog yn sesiwn eich Pwyllgor ar 12 Mehefin, bydd y grŵp gorchwyl a gorffen ar Weithrediadau, Prosesau a Gweithdrefnau (a lywodraethir gan y Grŵp Gweithredu Strategol) yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydweithio mewn ffordd briodol a chyson. Mae'r gweithgarwch hwn yn ehangach o lawer na ffocws cul ar y model hybiau diogelu amlasiantaeth.

Mae dulliau sefydledig eisoes ar waith sy'n galluogi cydweithio ac nid yw llwyddiant gweithredu'r Bil yn ddibynnol ar sicrhau bod gan bob ardal hwb diogelu amlasiantaeth.

Argymhelliad 18. Bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni newid sylweddol yn y cymorth rhianta cadarnhaol cyffredinol a ddarperir — yn y cyfnod cyn geni ac wedi hynny — ac yn gwneud y buddsoddiad strategol sydd ei angen i sicrhau bod pob teulu yng Nghymru yn cael mynediad at gymorth rhianta.

Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn. Rwy'n rhannu uchelgais y Pwyllgor y dylai fod gan deuluoedd yng Nghymru fynediad at gymorth rhianta, ond nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn yn llawn. Fel rwyf wedi nodi yn fy ymateb i Argymhelliad 7, nid wyf am achub y blaen ar ganlyniad y broses o fapio cymorth rhianta. Rwy'n disgwyl i'r cam cyntaf gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2019. Bydd yn cymryd amser i gwblhau dadansoddiad cynhwysfawr o'r canfyddiadau ac i'r Grŵp Cynghori Arbenigol ar Rianta wneud argymhellion. Yn y fan honno, byddaf yn ystyried faint o fuddsoddiad y bydd ei angen.

Mae cymorth rhianta yn un o flaenoriaethau'r Llywodraeth hon. Rydym eisoes yn darparu hyn mewn llawer o ffyrdd, gan weithio gyda darparwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol. Drwy negeseuon am iechyd y cyhoedd, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Rhaglen Plant Iach Cymru, codi ymwybyddiaeth a'r cwricwlwm, rydym yn gweld hyn fel rhan o ddull oes gyfan lle derbynnir mai rhianta cadarnhaol yw'r ffordd yr ydym yn rhianta yng Nghymru.

Argymhelliad 19. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi esboniad manylach o'r rhesymau pam mae'r dyraniad ariannol blynyddol posibl ar gyfer ymgyrch ymwybyddiaeth y Bil hwn tua hanner y swm a wariwyd ar yr ymgyrch smygu mewn ceir, a dwy ran o dair o'r swm a wariwyd ar yr ymgyrch rhoi organau (y cyfeirir at y ddwy ohonynt ym Memorandwm Esboniadol y Bil fel enghreifftiau o ymgyrchoedd a gyflwynwyd i gyd-fynd â deddfwriaeth).

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rwy'n fwy na pharod i esbonio sut rydym wedi dyrannu cyllid ar gyfer yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r Bil hwn.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 9 y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi'r angen am ymgyrch codi ymwybyddiaeth hynod effeithiol a phellgyrhaeddol fel rhan allweddol o'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth.

Opsiwn yr ymgyrch ddwys i godi ymwybyddiaeth a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw'r sail ar gyfer ein cynlluniau presennol. O ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, y mesurau cyni parhaus gan Lywodraeth y Du a'r ansicrwydd sylweddol ynghylch y cytundeb â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, rydym yn credu ein bod wedi dyrannu cyllideb gymesur i'r ymgyrch, a fyddai'n gost-effeithiol ac yn cyflawni ein hamcanion ar gyfer yr ymgyrch.

Caiff cryn dipyn o'r buddsoddiad arfaethedig dros chwe blynedd a thri mis ei wneud ar y dechrau er mwyn cyflwyno ymgyrch ddwys i godi ymwybyddiaeth yn ystod y ddwy flynedd gyntaf – gyda gwariant cyfartalog gwerth £700,000 y flwyddyn – gyda'r cyllidebau'n lleihau bob blwyddyn wedi hynny. Mae'r cyllidebau a gynigir ar gyfer y bumed a'r chweched flwyddyn yn dal i fod yn wariant sylweddol ar gyfathrebu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am sicrwydd gan yr asiantaeth gyfathrebu sydd dan gontract i gynnal yr ymgyrch ar ei rhan y gall y lefelau buddsoddi arfaethedig gyflawni targedau ymwybyddiaeth estynedig.

Rydym yn disgwyl i'r ymgyrch ddefnyddio sianeli megis teledu cenedlaethol a hysbysebion awyr agored (megis hysbysfyrddau, cabanau aros bysiau a gorsafoedd trenau) er mwyn cyrraedd llawer o bobl a chael effaith fawr, yn ogystal â sianeli penodol iawn er mwyn cyrraedd grwpiau allweddol a nodwyd drwy ein gwaith ymchwil. Caiff ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith ac ymwybyddiaeth o'r ymgyrch ei hun eu holrhain yn rheolaidd drwy gydol yr ymgyrch. Bydd data olrhain yn ein galluogi i wneud penderfyniadau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch a oes angen rhagor o fuddsoddiad mewn codi ymwybyddiaeth.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi yn yr ymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo', sy'n hyrwyddo pwysigrwydd technegau rhianta cadarnhaol ac yn cyfeirio rhieni a gwarcheidwaid at wefan 'Magu Plant. Rhowch amser iddo' i gael canllawiau ymarferol a gwybodaeth. Yn seiliedig ar y cynigion presennol ac yn amodol ar y broses pennu cyllidebau, mae oddeutu £500,000 wedi'i ddyrannu i ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo' yn ystod dwy flynedd gyntaf cyfnod gweithredu'r ddeddfwriaeth. Mae hyn yn adeiladu ar fuddsoddiad yn yr ymgyrch sydd eisoes yn sylweddol.

Argymhelliad 20. Bod Llywodraeth Cymru, cyn dechrau Cyfnod 3, yn cyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig sy'n rhoi amcangyfrifon manylach o'r costau "anhysbys" sy'n deillio o'r Bil a gaiff eu hysgwyddo gan wasanaethau cyhoeddus.

Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn. Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor a rhoddir ystyriaeth ddifrifol i ffyrdd o roi amcangyfrifon manylach o'r costau "anhysbys" i wasanaethau cyhoeddus sy'n deillio o'r Bil. Rhoddir diweddariad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn dechrau Cyfnod 3. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi efallai na fydd yn bosibl rhoi amcangyfrifon manylach o'r holl gostau anhysbys a restrir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyhoeddedig. Y rheswm dros hyn yw bod anawsterau ymarferol a logistaidd, mewn rhai achosion,

gyda chael gafael ar ddata dibynadwy, a fyddai'n ein helpu i gadarnhau costau posibl.

Un enghraifft yw cost bosibl y cynnydd posibl mewn honiadau o ymosodiadau cyffredin ar blant rhieni sy'n rhan o achosion llys teulu. Fel y nodais yn fy ymateb i Argymhelliad 16, mae llawer o faterion ymarferol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o amcangyfrif effaith bosibl hyn ar Cafcass Cymru a'r llysoedd. Er ein bod yn ystyried hyn yn ofalus iawn, rydym yn annhebygol o allu rhoi diweddariad erbyn Cyfnod 3.